# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 25AIN HYDREF, 2018**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**01286 679665**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 17 Hydref 2018)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Charles Wyn Jones
Olaf Cai Larsen
Judith Mary Humphreys
Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Catrin Wager
Edgar Wyn Owen

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Dylan Bullard
Anne Lloyd Jones
Hefin Underwood
John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nod unrhyw eitemau sydd yn fater o frys yn nhyb y cadeirydd er mwyn eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26/6/18 fel rhai cywir.

## 5. YMGYNGHORIAD Y PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2019-20 — 7 - 9

Derbyn sylwadau'r pwyllgor hwn mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 26/6/18

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Dylan Bullard, Annwen Daniels, Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Cai Larsen, Dewi Wyn Roberts a Catrin Wager.

**Swyddogion:** Bryn Goodman Jones (Arweinydd Tîm Gwasanaeth Cefnogol Technoleg Gwybodaeth), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Helen Parry (Rheolwr Gwybodaeth), Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau), Delyth Gadlys Williams (Swyddog Polisi Corfforaethol), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth) a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Linda Ann Jones

1. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Dylan Bullard yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn.**

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2018 fel rhai cywir.

4. **MATERION TECHNOLEG GWYBODAETH**

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn diweddaru'r Pwyllgor wedi i Aelodau'r Pwyllgor hwn fudo i ddarpariaeth Office 365 ar eu teclynnau Surface. Nododd fod y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi ymateb i broblemau wrth iddynt godi, gan ddefnyddio'r wybodaeth i wella'r ddarpariaeth. Nododd hefyd ei fod wedi dod i'r amlwg fod angen darparu mwy o hyfforddiant a chefnogaeth i'r Aelodau. Ychwanegodd fod cydweithio rhwng Aelodau a'r gwasanaethau sydd cynnig cefnogaeth iddynt yn hanfodol er mwyn llunio darpariaeth sydd yn diwallu eu hanghenion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:
- Fod angen amser i ddod i arfer gyda'r ddarpariaeth newydd, a bod hynny yn anoddach i aelodau sydd yn llai hyderus gyda thechnoleg gwybodaeth.
- Ategwyd fod angen darparu mwy o hyfforddiant TG i Aelodau.
- Fod gweld e-byst ar ffon symudol a dyfeisiadau eraill yn ddefnyddiol iawn.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd alw'r Aelodau am hyfforddiant pellach.

**Penderfynwyd:**
**1 - Lledaenu'r ddarpariaeth Office 365 i weddill Aelodau'r Cyngor**
**2 – Fod sesiynau hyfforddiant pellach yn cael eu trefnu ar gyfer hwyluso defnydd yr Aelodau o'r ddarpariaeth newydd.**

## 5. MERCHED MEWN DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gan y Cynghorydd Catrin Wager yn adrodd ar y gwersi a ddysgwyd wedi iddi fynychu cynhadledd i hybu rôl merched mewn democratiaeth. Nododd fod y gynhadledd wedi cyflwyno canlyniadau gwaith ymchwil gan Gymdeithas Fawcett. Y Prif negeseuon oedd bod angen hybu polisïau i helpu merched mewn democratiaeth gan alw am newidiadau diwylliannol, a chyfansoddiadol. 'Roedd hefyd angen trafod gyda merched er mwyn canfod beth oedd y problemau oedd yn eu hwynebu, yn ogystal ag annog merched oedd yn weithgar mewn grwpiau cymunedol i ystyried sefyll mewn etholiadau.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor wedi bod yn gweithio ym maes annog amrywiaeth mewn democratiaeth cyn yr etholiad yn 2017, a chroesawodd y wybodaeth ychwanegol oedd wedi ei rannu gan y Cynghorydd.

Nododd y Swyddog Polisi Corfforaethol fod trafodaethau wedi eu cynnal i gynnig hyfforddiant ar duedd anymwybodol yn dilyn profiad y Cynghorydd Catrin Wager yn y gynhadledd. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu a'r Gwasanaeth Democratiaeth ynglŷn â chynnal hyfforddiant fel peilot.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:
- Tra bod cynghorau cymuned yn un llwybr amlwg i unigolion fyddai'n deisyfu bod yn gynghorwyr, nid oedd yn tueddu i fod yn llwybr delfrydol i ferched. Gan eu bod yn tueddu i gyfarfod ar amseroedd nad oedd yn cyd-fynd gyda bywyd teuluol 'roedd yn fwy tebygol y byddai ymgeiswyr tebygol i'w canfod mewn grwpiau cymunedol eraill.
- Y dylid cysylltu gyda grwpiau cymunedol er mwyn annog aelodau gweithgar i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.
- Fod llawer o gynnydd wedi ei wneud ym maes amrywiaeth, er bod diwylliant gwleidyddol yn ei wneud yn anodd i ferched gymryd rhan.
- Fod gwaith yr is-grŵp amrywiaeth mewn democratiaeth wedi helpu

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar benderfyniad unigolion i sefyll mewn etholiad. Ychwanegodd fod y Cynulliad yn ymchwilio mewn i'r maes hefyd.

**PENDERFYNWYD:**
**1 - Ail ymgynnull yr Is-grŵp Amrywiaeth Mewn Democratiaeth er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.**
**2 - Cynnal sesiwn hyfforddiant ar duedd anymwybodol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor fel peilot.**

## 6. DIOGELWCH PERSONOL AELODAU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei hadroddiad gan nodi fod natur gyhoeddus rôl aelodau Etholedig yn golygu eu bod yn agored i gyswllt gan y gymuned ar unrhyw adeg. Tra bod y cyswllt hwnnw yn medru bod yn bositif, gallai'r cyswllt hwnnw hefyd fod yn negyddol. Nododd hefyd nad oedd unrhyw achosion penodol wedi codi o ran diogelwch Aelodau, ond fod angen codi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Fod sylw negyddol yn anochel fel rhan o waith Aelod Etholedig, a bod angen cydnabod effaith posib hynny ar unigolion.
- Ei fod yn bwysig i Aelodau fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n dderbyniol ac annerbyniol pan mae'n dod i sylw negyddol.
- Ei fod yn bwysig fod pobl yn teimlo fod eu llais yn cael ei glywed a'i gyfleu, a bod hynny yn rhan bwysig o feithrin parch yn y gymuned.

- Fod cydbwyso cyson rhwng bod yn ffigwr cyhoeddus a'r person preifat, gan ddod a dyletswydd i ymwneud a phobl anodd, ond hefyd dyletswydd i gymryd cyngor a chamau synhwyrol er mwyn cadw'n ddiogel lle bo hynny'n briodol.
- Ei fod yn bwysig fod gwybodaeth berthnasol ar gael i ymgeiswyr yn ogystal ag Aelodau Etholedig.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei bod yn cydnabod fod Aelodau yn mynd i fod mewn sefyllfaoedd anodd o bryd i'w gilydd, a bod yn aml linell denau rhwng yr hyn oedd yn dderbyniol ac yn annerbyniol.

**PENDERFYNWYD:**
**1 – Fod diogelwch personol aelodau i'w gynnig yn eitem i'r Fforymau Ardal er mwyn codi ymwybyddiaeth.**
**2 - Fod canllawiau ar ddiogelwch personol yn cael eu gosod ar y Porth Aelodau.**

**7. DIOGELU DATA**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Diogelu Data Statudol gan nodi fod deddfwriaeth Diogelu Data Cyffredinol i rym ar y 25ain o Fai 2018. 'Roedd yn rhan o rôl Aelodau i warchod data oedd yn eu meddiant yn unol â gofynion y ddeddf, a bod y Cyngor wedi eu cofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ceidwaid data. Ychwanegodd bod hyfforddiant wedi ei drefnu er mwyn cynorthwyo Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldeb i warchod a thrin data yn unol â'r rheolau. Anogodd yr Aelodau etholedig i fynychu'r hyfforddiant oedd yn ymwneud yn benodol a'u cyfrifoldeb fel Aelodau Etholedig yn hytrach na hyfforddiant oedd yn ymwneud a'r maes yn fwy cyffredinol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.15pm.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **25 Hydref 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Ymgynghoriad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol** |
| **PWRPAS** | **Derbyn sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cyflwyno sylwadau** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen,**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**<br>**Vera Jones**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth** |

1. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd yn gyfrifol am bennu'r cyflogau a'r costau sydd yn daladwy i gynghorwyr yn rhinwedd eu dyletswyddau. Bob blwyddyn, mae'r Panel yn cyhoeddi cynigion drafft ac yn ymgynghori arnynt.

2. Gellir gweld copi o'r ymgynghoriad llawn trwy ddilyn y ddolen isod:

Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2019

3. Mae cyfnod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar y 27ain o Dachwedd, 2018 a bydd yr ymateb yn cael ei gyflwyno i'r Panel gan Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn seiliedig ar sylwadau'r pwyllgor hwn.

4. Tynnir eich sylw at y prif awgrymiadau ym mhapur y Panel sy'n haeddu sylw:

   **a) Cyflog sylfaenol:**
   *Mae'r Panel yn argymell y dylid cynyddu lefel cyflog sylfaenol aelod etholedig o £268 y flwyddyn (£13,868 yn lle'r £13,600 cyfredol). Cynnydd o 1.97% fyddai hynny.*

Er mwyn gosod hyn mewn cyd-destun, dylid nodi fod penderfyniadau'r Panel yn ei adroddiad yn 2009, wrth sefydlu sail cyflogau aelodau, yn cysylltu taliadau ag enillion gros canorifol gweithwyr llawn-amser sy'n byw yng Nghymru. Pennwyd y cyflog sylfaenol ar lefel a oedd yn dair rhan o bump o Gyflog Canolrifol Cymru gyfan, gan gydnabod bod yna gyfraniad di-dâl i wasanaeth cyhoeddus. Yn sgil y cyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol yn benodol, nid yw wedi bod yn bosibl cynnal y cysylltiad ag enillion cyfartalog yng Nghymru. Mae'r Panel o'r farn bod hyn wedi tanbrisio gwerth aelodau etholedig. Er mwyn osgoi erydiad pellach mewn perthynas ag enillion cyfartalog mae'r Panel wedi penderfynu cynyddu'r cyflog blynyddol sylfaenol i £13,868 (cynnydd o 1.97%).

Mae'r Panel hefyd wedi nodi, yn ystod trafodaethau gydag amrywiol gynghorau, fod nifer wedi nodi fod y cyflog yn rhy isel i ddenu pobl ifanc ac i annog amrywiaeth, ac fod

gwahaniaethau sylweddol rhwng cydnabyddiaeth ariannol a'r cymorth sydd ar gael i aelodau etholedig mewn lefelau eraill o lywodraeth yng Nghymru.

**b) Lefel Cydnabyddiaeth i Arweinwyr ac Aelodau Cabinet:**
*Mae'r Panel yn argymell y dylid cynyddu lefel cyflog Arweinwyr ac aelodau o'r weithrediad o £800 (i gynnwys cynnydd o £268 sylfaenol).*

Nid yw cyflogau arweinwyr ac aelodau o'r weithrediaeth wedi cynyddu ers sawl blwyddyn (ac eithrio'r cynnydd i'r elfen sylfaenol). Mae'r Panel o'r farn bod cyfrifoldeb gweithredol sylweddol ar ysgwyddau deiliaid y swyddi hyn, ac nad ydynt wedi'u talu'n dda iawn o gymharu â nifer o swyddogion sector cyhoeddus eraill. Mae'r Panel felly wedi cynnig cynnydd bach o £800 (i gynnwys y cynnydd o £268 yn y cyflog sylfaenol).

**c) Taliadau i Benaethiaid a Dirprwyon Dinesig (Cyflogau Dinesig)**
*Mae'r Panel yn argymell gosod un cyfradd ar gyfer cyflogau dinesig, os ydynt yn cael eu talu, a'r taliad yn £22,568 ar gyfer Pennaeth Dinesig a'r Taliad yn £17,568 ar gyfer dirprwy bennaeth dinesig.*

Mae cynghorau wedi dweud yn gadarn wrth y Panel nad yw aelodau etholedig yn dymuno gwneud unrhyw ddewisiadau sy'n gofyn i'r cynghorau eu hunain gyfateb lefel gweithgareddau neu ddyletswyddau aelod penodol â lefel o gyflog ar gyfer y rôl. Mae pob dewis o'r fath bellach wedi ei ddileu, a'r cyflogau dinesig wedi eu gosod fel a nodir uchod.

Ch) **Cynghorau Tref a Chymuned**

Noder nad yw'r argymehllion isod ynghylch y Cynghorau Tref a Chymuned yn effeithio yn uniolgyrchol ar y Cyngor hwn. Fodd bynnag, gan fod gwahoddiad i ymateb i hol gynnwys yr ymgynghoriad, a gan fod gan nifer o aelodau etholedig Cyngor Gwynedd hefyd rol ar y cynghorau tref a chymuned, amlinellir y prif newidiadau sy'n cael eu hargymell gan y panel isod.

*Mae gan y Panel nifer o argymhellion ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned eleni, fel a nodir isod:*

- *Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliadau o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.*
- *Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrwp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.*
- *Gall Cynghorau Tref a chymuned yng ngrwpiau B neu C wneud taliad blynyddol o £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.*

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, bu i'r Panel gyfarfod gyda nifer o gynghorwyr a chlercod a oedd yn cynrychioli 175 o Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Mae'r Panel yn cydnabod bod swyddogaethau gwahanol gynghorau yn amrywio'n sylweddol, ac yn unol â'r amrywiad eang hwn bod rhaid i gyfrifoldebau ac atebolrwydd cynghorwyr yn amrywio hefyd. Mae cynghorwyr sy'n rheoli incwm neu wariant o £1m a'r rhai sy'n darparu

gwasanaethau arwyddocaol, gan gynnwys rhai a allai fod wedi cael eu dirprwyo gan brif gynghorau, yn gweithredu mewn amgylchedd mwy cymhleth na chyngor sydd â chyllideb flynyddol llai na £30,000.

Yn ei Adroddiad Blynyddol diwethaf, ffurfiodd y Panel 3 grŵp o gynghorau cymuned a thref i adlewyrchu'r gwahaniaethau hynny ar sail lefel incwm *neu* wariant, pa un bynnag oedd uchaf, dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r rhain yn aros heb eu newid yn Nhabl 8.

**Tabl 8: Grwpiau Cynghorau Tref a Chymuned**

| **Grŵp Cynghorau Tref a Chymuned** | **incwm neu wariant yn 2018-19** |
|---|---|
| A | £200,000 ac uwch |
| B | £30,000 - £199,999 |
| C | Islaw £30,000 |

Er gwybodaeth, Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor gael unrhyw daliad gan gyngor tref neu gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eu hatal rhag dal uwch-swydd. Mae'r penderfyniad hwn bellach yn cynnwys cynghorau Grŵp C yn ogystal â Grwpiau A a B. Pan fo person yn aelod o fwy nag un cyngor cymuned neu dref, mae'n gymwys I dderbyn £150 ac, os yn briodol, £500 gan bob cyngor y mae'n aelod ohono.

5. Mae'r Panel yn nodi fod cost i ddemocratiaeth, ac er mwyn sicrhau democratiaeth leol mae'n angenrheidiol cwrdd a'r costau hynny. Ar y llaw arall, bydd rhaid i'r Cyngor gwrdd ag unrhyw gynydd mewn costau ar gyfer aelodau etholedig Llywodraeth Leol. Rhaid hefyd ystyried y bydd yn ofynnol i'r Cynghorau Tref a Chymuned sicrhau cyllideb ddigonol i gwrdd â'r gofynion ariannol, gall hynny arwain at gynnydd yn eu preseptau, a fyddai ag effaith ar bobl Gwynedd.

6. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor fel sail i ymateb y Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth i ymgynghoriad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yng Nghymru.